Cofnodion Cyngor Cymuned Bro Cernyw nos Fercher Rhagfyr 12fed am 7.30pm
1.Croesawyd pawb gan Einir.
2.Ymddiheuriadau: Gwyn, Garffild
Absennol: Gwydion
3.Presennol: Gwynfor, Diane, Emlyn, Elen, Clwyd, Ann

4. **Ymateb y Cyngor Cymuned i'r Ymgynghoriad Fferm Wynt Clocaenog.**
Roedd Elen wedi dod a'i chyfrifiadur efo hi er mwyn cael llenwi ymatebion aelodau y Cyngor am yr Ymgynghoriad uchod a'i anfon ar y wê yn syth. Roedd yn bwysig i bawb roi adborth i'r cwestiynnau yn enwedig beth sy'n bwysig yng nghefn gwlad a'r hyn rydym yn edrych ymlaen iddo i'r dyfodol. Roedd pawb yn unfrydol yn ein atebion.Roedd Elen yn ein annog i ymateb i'r Ymgynghoriad fel unigolion hefyd. Diolchodd Einir ar ein rhan i Elen am wneud hyn.

Ail ran y cyfarfod oedd edrych ar geisiadau Cronfa Bro Cernyw.
Roedd Elen wedi paratoi taflenni yn barod ar ein cyfer am y 10 cais ddaeth i law. Pasiwyd ein bod yn rhoi arian fel a ganlyn:-

1.Canolfan Bro Cernyw	£500.00	
2.Clwb Garddio	£117.47	
3.Cylch Meithrin	£500.00	
4.Cymdeithas Chwaraeon	£500.00	
5.Eisteddfod Pandy Tudur	£550.00	
6.Merched y Wawr, Llangernyw	£171.00	Diane wedi datgan diddordeb yma.
7.Merched y Wawr, Pandy Tudur	£200.00	
8.Cymdeithas Plygu Gwrych	£126.00	
9.Pwyllgor Apêl Bro Cernyw	£2,000.00	
10.Amgueddfa Syr Henry Jones	£1,180.00	

Materion eraill
Gwynfor yn gofyn am PAYE Elwen. Einir wedi gofyn i Iona yn barod.
Cafwyd pris gan Iona am wneud yr archwiliad mewnol a gwaith gyda'r archwilwyr allanol. Am £75+ TAW
AV i ffonio Gwenda Vaughan efo dyddiadau cyfarfodydd 2019 sef:-
Ionawr 30ain, Mai 1af, Gorffennaf 31ain, Tachwedd 27ain

Cymerwyd y cofnodion gan Ann Vaughan Rhagyfr 12fed 2019

Arwyddwyd:…….. Dyddiad:……..